Dywedodd un o gynrychiolwyr yr athrawon fod yr hen faes llafur yn berthnasol i'r disgyblion a gofynnodd pam y gwnaed y penderfyniad i gyfuno'r ddwy Fanyleb. Dywedodd Lynda fod teimlad nad oedd gan y Fanyleb B eitfeddol yr un trylwyredd crefyddol â'r Fanyleb A etifeddol. Felly cafwyd ymgais i gael y gorau o'r ddwy Fanyleb. Awgrymodd un aelod fod Astudiaethau Crefyddol wedi bod yn boblogaidd a holodd faint sy'n cymryd y cwrs newydd. Dywedodd Lynda mai dim ond y cofrestriadau cychwynnol y gwyddent amdanynt ar hyn o bryd ac nad oedd y data yn fanwl. Cafwyd trafodaeth ar sefyll yr arholiad ym Mlwyddyn 10 ond mae teimlad gwleidyddol nad yw sefyll yr arholiad yn gynnar yn beth da ac mae'n bosibl y bydd Kirsty Williams yn gwahardd hyn. Dywedodd un o'r Ymarferwyr Arweiniol nad	A teacher representative said that the old syllabus was relevant to the pupils and asked why the decision was made to amalgamate the two Specifications. Lynda said that there was a perception that the legacy Specification B didn't have the religious rigor of the legacy Specification A. So there was an attempt to try to make the best of both worlds. One member suggested that Religious Studies had been on a high and asked what the take up for the new course is. Lynda said that they currently were only aware of preliminary entries and that the data was not accurate. There was a discussion on Year 10 entry as there is a political feel that early entry isn't a good thing. Kirsty Williams may prevent early entry. One of the Lead Practitioners said that her school were now not entering the whole cohort.

oedd ei hysgol hi bellach yn cael y cohort cyfan i sefyll yr arholiad. Oherwydd cyfyngiadau amser penderfynwyd na fyddai'r cyflwyniad ar Lefel A i CCYSAGauC yn digwydd yn absenoldeb Andrew Pearce, ond caiff ei roi ar wefan CBAC fel bod athrawon yn gallu ei weld yno.	Due to time restrictions it was decided that the A Level presentation to WASACRE would not go ahead in the absence of Andrew Pearce, but it will be put on the WJEC website for teachers to access.
ii. Kathy Riddick – Swyddog Datblygu, Dyneiddwyr Cymru Rhoddodd KR gyflwyniad ar pam y dylai CYSAGau dderbyn dyneiddwyr a pham y dylid cael cynrychiolwyr o'r Dyneiddwyr ar CCYSAGauC. Cyfeiriodd KR at ddogfen o Drafodaethau Ffydd Westminster o'r enw *A New Settlement: Religion and Belief in Schools* (Charles Clarke a Linda Woodhead) a oedd yn datgan fod cynnydd sylweddol wedi bod mewn amrywiaeth eang o ymrwymiadau crefyddol ac anghrefyddol. Cyfeiriodd KR hefyd at yr Arolwg o Agweddau Prydeinig sy'n dangos cynnydd mewn pobl heb unrhyw grefydd. Mae'r rheini sydd rhwng 18-34 yn 70% bellach. Dywedodd KR fod Humanists UK yn credu fod hyn ar goll o GYSAG, a bod Cylchlythyr 10/94, a ysgrifennwyd dros 20 mlynedd yn ôl, wedi dyddio. Mae Humanists UK wedi bod yn rhannu adnoddau ar gyfer AG ac wedi gweithio gyda CBAC. Mae'n darparu siaradwyr i ysgolion ac mae'n aelod gweithgar o'r Cyngor Addysg Grefyddol. Dywedodd KR fod nifer o GYSAGau yn Lloegr wedi derbyn cynrychiolwyr o'r dyneiddwyr yn aelodau o'r grŵp, a bod dyneiddwyr wedi cadeirio eu CYSAG yn Lloegr, sy'n dangos pa mor werthfawr yw eu cyfraniad i AG yn eu hardal. Caiff dyneiddwyr eu cynrychioli ar grŵp llywio strategol Llywodraeth Cymru dros ddiwygio'r cwricwlwm. Tynnodd sylw at y ffaith fod y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 - 19 oed yng Nghymru, 2008, yn datgan yn glir fod 'AG yn cyfrannu at Gymru, Ewrop a'r Byd drwy ofyn cwestiynau heriol o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol.' O ystyried hyn felly, roedd hi'n dadlau fod cynrychiolaeth dyneiddwyr ar GYSAGau a CCYSAGauC yn hanfodol. Roedd KR yn pryderu fod rhai CYSAGau yn cynnwys Dyneiddwyr yng Nghymru, ond nad oes cysondeb. O ganlyniad, mae Dyneiddwyr Cymru'n dadlau nad yw CYSAGau yn gwasanaethu'r gymuned addysgu. Dywedodd KR fod yna farn nad yw Dyneiddwyr yn cefnogi AG, ond y gwrthwyneb sy'n wir. Mae'n hollbwysig parhau ag AG. Cynigiodd KR fod CYSAGau yn cael dyneiddwyr yn aelodau. Mae Dyneiddwyr Cymru wedi gofyn i Lywodraeth Cymru newid Cylchlythyr 10/94 gan ei fod yn cam-wahaniaethu. Adroddodd KR fod Llywodraeth Cymru wedi dweud mai cyfrifoldeb CCYSAGauC yw hyn.	**ii. Kathy Riddick - Development Officer, Wales Humanists** KR gave a presentation on why SACREs should accept humanists and why WASACRE should have a humanist representative. KR referred to the Westminster Faith Debates document *A New Settlement: Religion and Belief in Schools* (Charles Clarke and Linda Woodhead) which stated that there has been a significant rise in a diverse range of religious and non-religious commitments. KR also made reference to the British Attitudes Survey which shows a rise in people with no religion. The Nones aged 18-14 are now over 70%. KR said that Humanists UK believe that this is missing from SACRE and that Circular 10/94, written over 20 years ago, is outdated. Humanists UK has been involved in sharing resources for RE and has worked with WJEC. It provides school speakers and is an active member of the REC. KR said that a number of SACREs in England have admitted humanist representatives as full members of group A, and humanists have served as chairs of their SACRE in England, which gives some indication of how valued their contribution is to RE in their area. Humanists are represented on the Welsh Government's strategic steering group for curriculum reform and work. She highlighted that the National Exemplar Framework for Religious Education for 3 – 19 year-olds in Wales, 2008 states very clearly that 'RE contributes to Wales, Europe and the World by raising challenging questions from religious and non-religious perspectives.' She argued that, given this, humanist representation on SACREs and WASACRE is crucial. KR raised her concern that some SACREs included Humanists in Wales, but there isn't a consistent approach. As a result Wales Humanists argue that SACREs are not servicing the teaching community. KR said that there is a view Humanists don't support RE, but the opposite is true. It is vital to continue RE. KR proposed that SACREs to have humanist members. She said that Wales Humanists have asked Welsh Government that Circular 10/94 be changed as it is discriminative. KR reported that Welsh Government have said that it is the responsibility of WASACRE.
Roedd y drafodaeth yn cynnwys y canlynol: o Dywedodd un o'r aelodau fod arolwg diweddar ar GYSAGau yn dangos fod aelodau cyfetholedig yn cael eu gwerthfawrogi. Dadleuodd fod yr aelodau i gyd yn dod â'u personoliaethau eu hunain ac os oes gennych aelod da, yna maen nhw'n aelodau da beth bynnag eu cefndir. Dadleuodd mai nod CYSAGau yw cefnogi AG a, gan fod hynny'n cynnwys credoau anghrefyddol, byddai o gymorth i gael cynrychiolwyr o'r Dyneiddwyr ar GYSAGau. o Dywedodd RT mai dogfen a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig yw Cylchlythyr 10/94 a bod hyn yn fater i GYSAGau unigol. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r ddogfen mai cyfethol yw'r unig lwybr i aelodau o'r Dyneiddwyr. Darllenodd EE e-	Discussion included the following: o A member said that a recent survey on SACREs found that co-opted members are valued. She argued that all members bring their own personalities and if you have a good member then they are good members no matter what their background. She argued that SACREs aim is supporting RE and, as that includes non-religious beliefs, it would be helpful to have Humanist representatives on SACREs. o RT said that Circular 10/94 is a document published by the Welsh Office and that this is a matter for individual SACREs. However, that it is clear from the document that co-option is the only route for humanist membership. EE read an email

bost i Libby Jones dyddiedig 21 Mehefin 2017 a oedd yn datgan "*O safbwynt Llywodraeth Cymru, y sefyllfa yw bod geiriad adran 390 o Ddeddf 1996 yn glir ac yn cyfeirio at grefydd ac nid credoau. Mae dyneiddiaeth yn cael ei ystyried yn aml fel system gred ac nid crefydd. Cyn belled ag y gŵyr Llywodraeth Cymru, mae awdurdodau lleol wedi dehongli'r term "crefydd" er mwyn eithrio systemau cred fel dyneiddiaeth. Fodd bynnag, mae'r dehongliad statudol yn fater i'r llysoedd..."* o Dywedodd un o gynrychiolwyr ffydd ALl ei bod wedi cael ei henwebu i eistedd ar CYSAG gan ei grŵp ffydd a gofynnodd a ellid gwneud yr un trefniadau i Ddyneiddwyr, sef cynrychioli mudiad. Dywedodd KR fod Dyneiddwyr Cymru yn fudiad. Maen nhw'n hyfforddi siaradwyr i ysgolion ac yn sicrhau fod gan y rheiny wybodaeth fanwl iawn am Ddyneiddiaeth. o Roedd un aelod, sy'n Gynghorydd, yn pryderu fod CYSAGau yn Lloegr yn anwybyddu'r ddeddfwriaeth gan y gallai hyn gael effaith ar gynghorwyr lleol. Awgrymodd mai'r ffordd ymlaen i Ddyneiddwyr Cymru yw drwy Lywodraeth Cymru. o Mewn trafodaeth bu'r aelodau'n ystyried y Ddeddf Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Cenhedloedd Unedig a Hawliau'r Plentyn. Awgrymwyd fod Cylchlythyr 10/94 yn ddogfen ddi-rym bellach ac y dylid ei diweddaru. Dywedodd GV fod aelodau o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC wedi cynnig newidiadau i'r ddogfen i swyddogion Llywodraeth Cymru yn y gorffennol, ond nid yw wedi'i diweddaru. Dywedodd aelodau y gall CYSAGau ofyn i'r cyngor newid cyfansoddiad fel y gellir gwahodd Dyneiddwyr fel aelodau cyfetholedig. Dywedodd EE, pan mae dwy ddeddf yn gwrthdaro, dim ond yr Uchel Lys neu'r Goruchaf Lys all benderfynu. Awgrymodd fod CCYSAGau yn ysgrifennu i ofyn i LlC fynd â hyn i'r llysoedd. o Dywedodd Aelod a oedd wedi'i gyfethol ar GYSAG am flynyddoedd lawer, ac sydd bellach yn aelod llawn, nad oedd cael ei gyfethol wedi'i rwystro rhag cyfrannu a dylanwadu ar benderfyniadau. Nododd PL y dylai CYSAGau gael eu pennu'n lleol ac y dylai'r aelodaeth adlewyrchu'r ardal leol. o Yn ôl KR, gofyn am driniaeth gyfartal mae Dyneiddwyr ac mae hyn yn fater o barch cyffredinol. Dywedodd ei bod hi wed ymweld â ChYSAG yn ddiweddar fel aelod o'r cyhoedd ac yn teimlo nad oedd wedi cael ei thrin â pharch. Dywedodd fod Dyneiddiaeth yn ymwneud â rhyddid a pharch. Nid oedd ganddi hawl i ateb oherwydd y cyfyngiadau ar aelodau o'r cyhoedd oedd yn bresennol mewn cyfarfod CYSAG. Awgrymodd aelod o CCYSAGauC na ddylai byth fod cyd-destun lle nad oes hawl gan rywun i'w amddiffyn ei hun. Dywedodd Mathew Vince, myfyriwr Doethuriaeth o Brifysgol Caerdydd, fod systemau cred anghrefyddol yn un o'r meysydd ymchwil academaidd sy'n tyfu gyflymaf. Dywedodd aelod arall ei bod yn flin iawn ganddi fod KR yn teimlo iddi gael ei heithrio'n fwriadol. Fodd bynnag, ategodd fod hwn yn fater i'r pwyllgor ac felly i Lywodraeth Cymru. Mae angen ei adolygu. Dywedodd nad oedd gan rai cynghorau lefydd cyfetholedig ac os yw'r llefydd cyfetholedig yn llawn, yna nid oes cyfle. Adroddodd KR fod sawl aelod o Ddyneiddwyr Cymru wedi cael eu gwrthod. Ond mae hi'n dymuno symud ymlaen. Dywedodd eu bod eisiau cymorth i greu dinasyddion sy'n foesegol gytbwys ac un ffordd o wneud hynny'n ffurfiol yw drwy gymryd rhan mewn CYSAGau.	from Welsh Government to Libby Jones dated 21st June 2017 stating that "*From the Welsh Government perspective, the position is that the wording of section 390 of the 1996 Act is clear and refers to religion and not beliefs. Humanism is often regarded as a belief system and not a religion. As far as Welsh Government is aware, local authorities have interpreted the term "religion" so as to exclude belief systems such as humanism. However, statutory interpretation is a matter for the courts..."* o An LA faith representative said she had been nominated by her faith group to sit on SACRE and asked whether the same arrangements could be made for humanists whereby a body is represented. KR said that Wales Humanists is an organisation. They train school speakers and ensure they have an in depth knowledge of Humanism. o One member, who is a Councillor, found it disturbing that SACREs in England ignore legislation as this could have an impact upon local councillors. He suggested the avenue for Wales Humanists is through Welsh Government. o In discussion members considered the Equalities and Human Rights Act and the United Nations and the Rights of the Child. It was suggested that Circular 10/94 is now a defunct document and should be updated. GV said that WASACRE Executive members have offered suggested changes to document to Welsh Government officials in the past, but cannot get it updated. Members pointed out that SACREs can ask the council for constitutions to be amended so that Humanists can be invited as co-opted members. EE pointed out that where two laws conflict only the High Court or the Supreme Court can decide. He suggested that the courts need to tell us what to do as currently SACREs are restricted. He suggested that WASACRE write to ask WG to take this to the courts. o A Member who had been co-opted onto a SACRE for many years, and who is now a full member said that being co-opted hadn't stopped him from contributing and influencing decisions. PL pointed out SACREs should be locally determined and membership should reflect the local area. o KR said that Humanists are asking for equal treatment and that it is a general issue of respect. She said that she had visited a SACRE recently as a member of the public and felt that she had had not been treated respectfully. She said that Humanism is about freedom and respect. She said that there had been no right to reply due to restrictions on members of the public attending a SACRE meeting. A WASACRE member suggested that there should never be a context for not having a right to defend yourself. Matthew Vince, a PhD student at Cardiff University, said that non-religious belief systems is one of the fastest growing areas of academic research. One member said that she felt really sorry that KR felt that she had been deliberately excluded. However, reaffirmed that this is an issue about committee A and, therefore, a Welsh Government issue. It is due for review. She said that some councils do not have co-opted positions and that if the co-opted places are filled then there is no position. KR reported that Wales Humanists has had quite a few members rejected. But that she wants to move forward. She said that they want to help to create ethically informed citizens and one way they can do that formally is through involvement in SACREs.

○ Diolchodd GV i KR am ddod a chyflwyno a dywedodd ei bod yn dda ei chlywed yn siarad yn gefnogol am Addysg Grefyddol. ○ Dywedodd PL fod CCYSAGauC wedi cael cyfarfod wyneb yn wyneb gyda Llywodraeth Cymru yn y Gwanwyn pryd y cododd y mater ei ben yn amlwg ond dywedwyd nad eu cyfrifoldeb nhw ydoedd. ○ Cynigiodd GV fod CCYSAGauC yn anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt fynd â'r mater hwn i'r llysoedd benderfynu arno. Dywedodd ei bod wedi dychryn clywed y gall rhywun fynd i GYSAG a chael eu trin heb barch. Cafwyd trafodaeth wedyn ar brotocol cyfarfodydd cyngor. Y teimlad oedd os oedd rhywun yn cael diffyg parch, yna dylent gael yr hawl i ateb. Roedd yr aelodau'n teimlo y dylai cyfarfodydd CYSAG gael eu cynnal yn ysbryd AG ac y dylent barchu pawb. Awgrymodd GV fod CCYSAGauC yn ystyried cod ymarfer i GYSAGau. Dywedodd fod pobl yn ymuno â ChYSAG heb ddeall ethos AG. Dywedodd aelodau CCYSAGauC sydd hefyd yn gynghorwyr, nad oes gan aelodau o'r cyhoedd hawl i ateb mewn cyfarfodydd, oni bo'r cadeirydd yn gofyn iddynt wneud hynny. **GWEITHREDU: - CCYSAGauC i anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn gofyn am ddiweddaru Cylchlythyr 10/94** **GWEITHREDU – rhoi Cod Ymarfer yn eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.** **7. Darparu Ysgrifennydd Cofnodion- Phil Lord** Cyflwynodd PL ei ymchwil i gael gwasanaeth clercio i'r cofnodion. Dywedodd mai'r gost arferol yw £250 y diwrnod. Awgrymodd y gallai hyn gostio £1500 y flwyddyn gyda threuliau ar ben hynny. Cafwyd trafodaeth am y gost yn ogystal ag ar rôl Ysgrifennydd CCYSAGauC. Cytunwyd fod cryn dipyn o waith ac y byddai'r broses o ysgrifennu cofnodion yn cael ei chyflymu a chofnodion yn gallu cael eu hanfon at GYSAGau yn gyflym. Mae rôl Ysgrifennydd CCYSAGauC wedi newid a bellach mae'n gofyn am set o sgiliau penodol iawn. Cynigiodd PL eu bod yn penodi clerc a fydd yn anfonebu CCYSAGauC am eu gwaith a'u gwasanaethau. Dywedodd fod angen cysondeb felly byddai angen i'r sawl fyddai'n cael eu penodi fod yn ymwybodol o iaith arbenigol AG. Eiliwyd hyn gan RT. **GWEITHREDU: Ysgrifennu at y CYSAGau i ofyn am rai â diddordeb yng ngwaith Clerc Cofnodion.** **8. Cyfansoddiad Cymdeithas CYSAGau Cymru** Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf. **9. Diweddariadau:** ***i.*** **Materion Llywodraeth Cymru– Diweddariad ar y Cwricwlwm Newydd – AG ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau – Manon Jones** Mae Llywodraeth Cyru wedi cyhoeddi newidiadau i'r dyddiadau allweddol (http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?lang=en). Erbyn mis Ebrill 2018 bydd drafft o'r cwricwlwm newydd ac erbyn mis Ionawr 2020 bydd y	○ GV thanked KR for coming along and for presenting and said that it was good to hear her speak supportively of Religious Education. ○ PL said that WASACRE Executive members had a face to face meeting with Welsh Government during the Spring where this issue had been very strong in saying that this is not our responsibility. ○ GV proposed WASACRE send a letter to Welsh Government asking them to take this matter to the courts to decide. She said that she was alarmed that someone can go to a SACRE and be treated with a lack of respect. A discussion followed on protocol of council meetings. It was felt that if someone is treated disrespectfully then they should have a right to reply. It was felt by members that SACRE meetings should be conducted in the ethos of RE and should be respectful. GV suggested that WASACRE should look at a code of conduct for SACREs. She said that people are joining a SACRE and not understanding the ethos of RE. Members of WASACRE who also sit as councillors said that members of the public have no right to reply in meetings, unless they are to by the chair to do. **ACTION: - WASACRE to send a letter to Welsh Government requesting that Circular 10/94 be updated** **ACTION – to set Code of Conduct as an agenda item at next meeting.** **7. Provision of a Minute Secretary– Phil Lord** PL presented his research into a clerking service for minutes. He said that the usual cost is £250 per day. He suggested that this could cost £1500 per annum plus expenses. Discussion took place on the cost as well as on the role of Secretary to WASACRE. It was agreed that this is a considerable role and that it would speed up the whole process of minute writing so that minutes could be sent to SACREs quickly. The role of Secretary to WASACRE has changed and now it requires a very specific skill set. PL proposed that a clerk is appointed who will invoice WASACRE for the work they have done and for their services, he siad that continuity is needed so the appointee would need to be aware of the specialist language of RE. This was seconded by RT. **ACTION: Write to SACREs to seek those interested in the role of Minutes Clerk** **8. *Wales Association of SACREs* Constitution.** This item was adjourned to the next meeting. **9. *Up-dates:*** ***i.*** **Materion Llywodraeth Cymru / *Welsh Government matters* – New Curriculum update - RE in the Humanities AoLE - Manon Jones** Welsh Government (has) published changes to the key dates (http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?lang=en). By April 2018 there will be a draft of the new curriculum and by January 2020 the final curriculum and assessment arrangements will be published, to be implemented

cwricwlwm terfynol a'r trefniadau asesu yn cael eu cyhoeddi, i'w gweithredu yn 2022. I ddechrau bydd yn cael ei ddysgu yn yr ysgol gynradd a Blwyddyn 7. Bydd cyfnod ychwanegol o bedair blynedd o astudio i'r cwricwlwm newydd a'r cymhwyster newydd. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n gofyn sut mae'r dyniaethau'n cefnogi'r cwricwlwm newydd. Sut ddylai'r dyniaethau edrych? Beth yw lefel y penodoldeb a'r cysondeb rhwng ysgolion? Bydd crynodeb gan yr Ysgolion Arloesi ym mis Gorffennaf. Dylai cyfarfodydd CYSAG yn nhymor yr Hydref fod wedi trafod y llythyr gan Lywodraeth Cymru, sy'n ymwybodol iawn nad ydym eisiau colli unrhyw beth o AG. Bu canolbwyntio ar y disgyblaethau a byddant yn gwneud cysylltiadau rhyngddynt, fodd bynnag mae'n bosibl y bydd yn rhaid i rai agweddau sefyll ar eu pennau eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda CCYSAGauC ac wedi comisiynu papur ganddynt. Mae cydweithwyr o LlC yn ymwybodol o bwysigrwydd yr hawl i dynnu'n ôl o AG. Bydd Llywodraeth Cymru'n adrodd yn ôl i'r CYSAGau erbyn mis Ionawr 2018. Gofynnwyd i Manon Jones pryd gallem ddisgwyl gweld y 'cig ar yr asgwrn' o ran y cwricwlwm. Bydd gwaith yn cael ei wneud ar y llinynnau ar ddiwedd y mis nesaf, ond erbyn Mawrth neu Ebrill bydd mwy o adborth manwl. Mae Manon yn sylweddoli pwysigrwydd cyfathrebu ar wahanol lefelau'r broses ddatblygu, yn ogystal â sicrhau fod ymarferwyr mewn Ysgolion Arloesi yn cael eu hysbysu. Cytunodd fod angen iddi ystyried hefyd y rheiny nad ydynt mewn ysgolion arloesi. ii. Hysbysodd GV y cyfarfod fod grŵp o aelodau CCYSAGauC wedi llunio papur ar *Beth sy'n Bwysig mewn AG* ac y byddai hwn yn cael ei gyflwyno yn y Gweithdai Cynllunio'r Dyniaethau ddydd Llun 13 Tachwedd yn Abertawe. **10. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 13 Medi 2017** Eitem 4. Rhoddodd GV ddiweddariad ar y Cyngor Addysg Grefyddol sydd wedi comisiynu adroddiad ar AG yn Lloegr. Mae gennym hawl i ymateb iddo erbyn 4 Rhagfyr. Gofynnodd GV am farn yr aelodau ynghylch a ddylai Cymru gomisiynu rhywbeth tebyg. Mae'r CoRE yn Lloegr yn cynnwys gwybodaeth sy'n bwysig i ni yng Nghymru. Roedd GV wedi bod yn siarad â Rudi Lockhart am adolygiad tebyg yng Nghymru. Holodd Gill a allai CCYSAGauC gefnogi dau gynrychiolydd i fynychu Cynhadledd NASACRE/ARIEAC ar y CoRE. **GWEITHREDU: y Pwyllgor Gwaith i gyfathrebu drwy e-bost ac ymateb i'r adroddiad.** **GWEITHREDU: Gwahodd Rudi Lockhart i gyfarfod nesaf Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC** **11. Gohebiaeth** Derbyniodd CCYSAGauC yr ohebiaeth ganlynol: i. Roedd Matthew Vince, o'r Ganolfan Astudiaeth Islam yn y DU ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n edrych ar fywydau cymunedau Mwslimaidd sy'n byw ym Mhrydain, wedi ysgrifennu at CCYSAGauC ac roedd yn bresennol yn y cyfarfod. Fe'i gwahoddwyd i siarad â'r aelodau am ei ymchwil i brofiadau athrawon AG Mwslimaidd mewn ysgolion	in 2022. Initially it will be taught in Primary and Year 7. There will be an additional four year period of studying to new curriculum and new qualification. Currently, Welsh Government is asking how humanities supports the new curriculum. How should humanities look and appear? What is the level of specificity and consistency between schools? There will be a summary from the Pioneer Schools in July. SACRE meetings in the Autumn term should have discussed the letter from Welsh Government, which is very aware that we do not want to lose anything from RE. There has been a concentration upon the disciplines and they will make links between them, however some aspects may have to be stand alone. Welsh Government has been working with WASACRE and the commissioned a paper. Colleagues from WG are aware of the importance of the right to withdraw from RE. Welsh Government will feed back to SACRES by January 2018. Manon Jones was asked when we could expect to see 'meat on the bones' of the curriculum. The strands will be worked on at the end of next month, but by March or April there will be more in depth feedback. Manon sees the importance of communication at different levels of the development process, as well as ensuring practitioners in Pioneer Schools are informed. She agreed that she also needed to consider those who are not in pioneer schools. ii. GV informed the meeting that a group of WASACRE members had drawn up a paper on *What Matters in RE* and that this is to be presented at the Humanities Planning Workshops on Monday 13th November in Swansea. ***10. Report from the Executive Committee held on 13 September 2017*** Item 4. GV gave an update on the REC who have commissioned a report on RE across England. We have a right to respond to it by 4th December. GV sought the views of members on whether Wales could have a similar commission. The CoRE in England contains information that is-important for us in Wales. GV spoke to Rudi Lockhart about a similar review in Wales. Gill asked whether WASACRE is able to support two delegates in attending the NASACRE/ARIEAC Conference on the CoRE. **ACTION: the Executive Committee to communicate via email and respond to the report.** **ACTION: Invite Rudi Lockhart to the next meeting of the WASACRE Executive** **11. Correspondence** WASACRE received the following correspondence: i. Matthew Vince, from the Centre for the Study of Islam in the UK at Cardiff University which explores the lives of Muslim communities living in Britain, wrote to WASACRE and was present at the meeting. He was invited to speak to members about his research into the experiences of Muslim RE teachers in secondary schools. The Centre has set up a Future

DRAFT

uwchradd. Mae'r Ganolfan wedi sefydlu cwrs *Future Learn* sydd am ddim i athrawon. Mae'r ganolfan yn cynnwys DPP i athrawon AG a gallant ymweld ag ysgolion i hwyluso gweithdai. Mae digwyddiadau a darlithoedd cyhoeddus eraill ar gael am ddim hefyd. Mae gan y Ganolfan ddiddordeb mewn datblygu deunyddiau ar gyfer cwrs sy'n addas i ddisgyblion CA3/4, a fydd ar gael i athrawon ar draws De Cymru.	Learn course which is free to teachers. The centre offers CPD to RE teachers and will visit schools to facilitate workshops. There are also other free events and public lectures available. The Centre is interested in developing materials for a course suitable for KS3/4 pupils, which will be accessible to teachers across South Wales.
ii. Dywedodd Dr Wendy Dossett wrth CCYSGauC fod Prifysgol Caer yn cynnal 'diwrnod yn ôl i'r brifysgol' i athrawon ar Grefydd a Moeseg ddydd Sadwrn, 10 Chwefror, 2018.	ii. Dr Wendy Dossett informed WASACRE that the University of Chester will be holding a 'back to university day' for teachers on Religion and Ethics on Saturday 10th February, 2018.
iii. Cafwyd newyddion trist gan y Rhwydwaith Rhyng-ffydd fod Mr Jagwam Singh, Is Gadeirydd y Rhwydwaith rhwng 2001-2004, wedi marw.	iii. The Interfaith Network notified WASACRE that Mr. Jagwan Singh, IFN Vice Chair 2001-2004, has sadly passed away.
12. U.F.A.	**12. *A.O.B.***
Nid oedd unrhyw fater all.	There was no other business.
Caeodd EE y cyfarfod a diolchodd i'r Maer, Pam Davies; Vicky Thomas*;* Ellen Franks, Clerc CYSAG Pen-y-bont ar Ogwr ac aelodau CYSAG Pen-y-bont ar Ogwr; y Pedwarawd Llinynnol, Simon Grey, a'r cyfieithydd, Stephen Williams.	EE closed the meeting and thanked the Mayor Pam Davies; Vicky Thomas*;* Ellen Franks, Clerk to Bridgend SACRE and members of Bridgend SACRE; the Archbishop String Quartet, Simon Grey, and the interpreter, Stephen Williams.
13. Dyddiad y cyfarfodydd nesaf:	**13. *Date for next meeting*:**
i. Haf 2018 – Ynys Môn – 6 Gorffennaf 2018 ii. Hydref 2019 – Bro Morgannwg	i. Summer 2018 –Anglesey - 6 July 2018 ii. Autumn 2019 – Vale of Glamorgan

DRAFT